# Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR BLANT SY'N DERBYN GOFAL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

# Mawrth 2015

**LLEISIAU O OFAL VOICES FROM CARE**



**Rhagair David Melding (Cadeirydd)**

Nod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yw defnyddio'r adnodd craffu sydd ar gael yn y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn helpu i wella safon y gwasanaethau a ddarperir i blant mewn gofal ac unrhyw un sy'n gadael gofal.

Yn ystod y flwyddyn, edrychodd y grŵp ar Adroddiad Bywyd ar ôl Gofal Comisiynydd Plant Cymru a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham.

Fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol rwy'n ddiolchgar i holl Aelodau'r Cynulliad sydd wedi cefnogi ein gwaith. Rydym hefyd wedi cael budd o arbenigedd amryw o siaradwyr gwadd sydd wedi rhoi'n hael o'u hamser. Ond heb gefnogaeth ragorol ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Lleisiau o Ofal, ni fyddai'r gwaith gwerthfawr hwn wedi bod yn bosibl.

## Y grŵp trawsbleidiol ar blant sy'n derbyn gofal

Mae'r Grŵp yn cyfarfod i drafod materion pwysig gwahanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac i drafod y goblygiadau o ran polisi.

Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i gynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol gyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad i drafod materion o bryder ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

## Aelodaeth ac Ysgrifenyddiaeth

O fis Mawrth 2015, mae'r aelodau a'r ysgrifenyddiaeth fel a ganlyn:

**Aelodau:**

- David Melding AC, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
- Bethan Jenkins AC
- Julie Morgan AC
- Mohammad Asghar AC

**Ysgrifennydd:**

- Rhian Williams – Lleisiau o Ofal

### Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis diwethaf

Cynhaliwyd cyfanswm o ddau gyfarfod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

Ni wnaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal gyfarfod ag unrhyw lobïwyr neu elusennau.

| DYDDIAD Y CYFARFOD | AELODAU'R CYNULLIAD A OEDD YN BRESENNOL | PYNCIAU A DRAFODWYD | YN BRESENNOL A SIARADWYR GWADD |
|---|---|---|---|
| 7 Mai 2014 | David Melding AC, Dirprwy Lywydd - Cadeirydd<br><br>Craig Lawton - Staff cymorth Suzy Davies AC | Adroddiad Bywyd ar ôl Gofal Comisiynydd Plant Cymru | R. Williams - Lleisiau o Ofal |
| 25 Chwefror 2015 | David Melding AC, Dirprwy Lywydd – Cadeirydd<br>Joyce Watson AC<br>Tom Davies – staff cymorth Angela Burns AC<br>Fiona Openshaw – staff cymorth Joyce Watson AC<br><br>George Rudebusch, Staff cymorth David Melding AC - cofnodwr | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham | Menna Thomas, Swyddog Ymchwil a Pholisi, Barnardo's<br><br>Hywel Ap Dafydd – Swyddog Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |

**Datganiad Ariannol**

Talwyd cyfanswm o £3.60 mewn treuliau teithio dros y ddau gyfarfod a thalodd Lleisiau o Ofal am y rhain. Roedd amcangyfrif o £119.58 o gostau mewn nwyddau am yr amser a dreuliwyd gan staff Lleisiau o Ofal wrth iddynt wasanaethu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal.